# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 06 HYDREF 2023, yn y Tŷ Trafod, y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green (ar Teams o eitem 3 ymlaen); Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; yr Athro Reyer Zwiggelaar; Mrs Ellen ap Gwynn; a Ms Jane Usherwood (ar Teams).

Yn gweinyddu: Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid (cofnod 10); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (cofnod 13); Mr Mathew Norman, (aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio); Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Gweithredol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Claire Vaughan. Anfonodd y Cyngor ddymuniadau da at Clare Vaughan.

Croesawyd Jane Usherwood ac Ellen ap Gwynn i'w cyfarfod cyntaf.

## 1. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Nododd Dr Emyr Roberts wrthdaro yn gysylltiedig ag Eitem 13: Yr Hen Goleg, am ei fod wedi'i benodi'n ddiweddar i Bwyllgor Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

## 2. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Penodi Is-Ganghellor

   Ymesgusododd yr Athro Elizabeth Treasure ei hun am yr eitem hon.

   Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-018)

   Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y broses. Cyflwynwyd yr Athro Jon Timmis i'r Cyngor, sef yr ymgeisydd dewisol am swydd yr Is-Ganghellor, barn unfrydol pob un o'r grwpiau ffocws a'r panel cyfweld.

   Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor, Ysgrifennydd y Brifysgol, a Phennaeth Adnoddau Dynol am eu cymorth yn y broses, a fu'n drylwyr a chadarn.

   **PENDERFYNWYD**

   Penodi'r Athro Jon Timmis yn Is-Ganghellor o 1 Ionawr 2024 ymlaen.

2. Atgoffwyd yr aelodau am ddigwyddiadau'r Sylfaenwyr a oedd ar y trothwy, a nodwyd bod croeso i bawb fod yn bresennol.

Ymunodd yr Athro Simon Green â'r cyfarfod.

**3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Mehefin 2023 (COU2324-003).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2324-004).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd.
2. Yn sgil y drafodaeth yn y diwrnod strategaeth, cyflwynir papur i'r Cyngor yn amlinellu'r camau gweithredu arfaethedig a'r camau dilynol [**GWEITHREDU**: Gweithrediaeth y Brifysgol].

**5. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-005).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
   - 2.1. CIELivestock Limited: Cynnig i greu grŵp Agri-Tech Catapult newydd, yn cyfuno cwmnïau Agri-EPI Centre Limited, Crop Health and Protection Limited, a CIELivestock Limited (Gweithredwyd gan y Cadeirydd, ar ran y Cyngor)
   - 2.2. Cynyddu nifer y dyddiau y bydd y Brifysgol ar gau
     Nodwyd y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio drafod ac ystyried y ffaith fod gan y brifysgol lai o ddyddiau gwyliau blynyddol a dyddiau ar gau na phrifysgolion eraill yng Nghymru.
   - 2.3. Enwebiadau am swydd Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; a dau aelod dros dro i'r Cyngor.

**6. GOHEBIAETH**

1. <u>Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol</u>

   DERBYNIWYD

   Llythyr gan yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (COU2324-006)

NODWYD

1. Cafodd y llythyr terfynol ac ymateb llawn eu cyflwyno i'r Cyngor.

2. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar arolygaeth a sicrwydd academaidd, a'r fframwaith llywodraethu i ategu'r gwaith hwn.

**PENDERFYNWYD**

3. Bydd cynnig yn cael ei rannu â'r Cyngor, i'w weithredu yn 2024. [**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor a'r Cofrestrydd Academaidd].

4. Dylid ystyried adolygu Cylch Gwaith y pwyllgor ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau i'r fframwaith llywodraethu. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**7. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2324-006).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch, yn seiliedig ar yr adroddiadau perthnasol. Mae rhaglen sylweddol o sesiynau hyfforddi ar y gweill, ac fe gaiff ei hadolygu yn gymwys.

**8. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Lywydd UMAber.

NODWYD

1. Bu gweithgareddau'r wythnos groeso yn hynod llwyddiannus, ac fe gymerodd mwy o fyfyrwyr ran ynddynt yn gyffredinol.

2. Bu'r digwyddiadau di-alcohol yn llwyddiannus iawn ac fe gânt eu cynnal eto yn y dyfodol.

3. Blaenoriaeth UMCA am y flwyddyn fydd dathliadau hanner can mlwyddiant UMCA; datblygu a diogelu modiwlau cyfrwng Cymraeg; a gweithio gyda'r tîm Marchnata a denu Myfyrwyr i ddenu myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

4. Bydd cyn-fyfyrwyr yn cael eu croesawu'n ôl ar gyfer dathliadau UMCA, yn enwedig y llywyddion blaenorol. Mae tudalen codi arian torfol wedi'i sefydlu ac mae'r ymgyrch yn mynd rhagddi. Awgrymodd yr aelodau y gellid defnyddio'r digwyddiad yn gyfle i hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ehangach a dangos sut mae myfyrwyr yn elwa o UMCA ac o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. [**GWEITHREDU:** Llywydd UMCA].

**9. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad Helen Thomas, Uwch Ddadansoddwr Data. (COU2324-007)

1. Nodwyd bod y Datgeliad er Lles y Cyhoedd yn llyncu amser rheoli i'w datrys.

2. Rhoddodd yr Is-Ganghellor fraslun o newidiadau staffio ar lefel y Weithrediaeth, a fydd yn cael eu rheoli a'u trafod â'r darpar Is-Ganghellor.

3. Mae gwaith da wedi'i wneud ar y dangosyddion perfformiad, a chafwyd cynnydd rhagorol o safbwynt targed yr incwm ymchwil allanol blynyddol.

4. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda llywydd UMCA yn gysylltiedig â nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg ac i hyrwyddo'r ysgoloriaethau sydd ar gael.

5. Mae'r Brifysgol mewn sefyllfa dda, ac efallai yr hoffai'r Cyngor gadarnhau cyfres wahanol o ddangosyddion gyda'r Is-Ganghellor newydd.

6. Mae canran y rhai sydd wedi cwblhau, neu wrthi'n cwblhau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn isel, ond mae arolygon staff yn dangos bod staff yn cael cyfarfodydd arfarnu a bod rheolwyr yn cynnal sgyrsiau ystyrlon â'u staff. Mae'r drefn yn heriol, ac nid yw'r ffigurau'n adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae.

7. Rydym yn gwneud yn dda o ran llwyddo i gadw myfyrwyr. Yr arwyddion presennol yw mai 4% yw'r lefelau cadw, sy'n cymharu'n dda iawn â phrifysgolion eraill.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Dylid adolygu'r metrigau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. [**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor a'r Swyddfa Gynllunio].

## 10. MATERION ARIANNOL

1. <u>Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Linehan a Stephen Harrison, Partneriaid Busnes Cyllid (COU2324-008).

NODWYD

1. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith dros yr wythnosau diwethaf.

2. Mae'r Brifysgol wedi gweithredu mewn tirwedd ariannol heriol yn ystod 2022-23. Nid yw'r sefyllfa weithredu sylfaenol, sef diffyg o £2.2 miliwn, yn unol â disgwyliadau'r gyllideb, ond yn adlewyrchiad o dderbyn nifer is o fyfyrwyr ynghyd â dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn, pwysau chwyddiant, a chynnydd yng nghyfradd llog.

3. Mae newid andwyol o £1.2m yn y cyfleustodau yn adlewyrchu addasiadau pellach yn y farchnad ac oedi cyn i'r paneli solar gael eu gosod. Wrth symud ymlaen, rhagwelir y bydd y paneli solar yn cynhyrchu digon o drydan i dorri tua £0.5m y flwyddyn oddi ar gostau, a bydd hyn yn lliniaru'n rhannol y cynnydd sylweddol yng nghostau unedau yn 2023-24 a thu hwnt. Nododd yr aelodau fod adroddiadau blaenorol yn dangos bod costau'n cael eu rheoli o ganlyniad i'r fferm solar a phŵer a brynwyd ymlaen llaw.

4. Yn 2022-23, cafwyd £0.8m o gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â marchnata wedi'i dargedu at fyfyrwyr rhyngwladol. Yn y dyfodol bydd y tîm yn cael cyllideb sefydlog i'w rheoli fel y bo'n briodol.

5. Gofynnodd yr aelodau pam na nodwyd y materion yn y cyfrifon misol. Dywedodd y swyddogion fod yr adroddiadau'n amlinellu'r sefyllfa o'i gymharu â rhagamcanion y gyllideb, nid y gwariant gwirioneddol. Dylid adolygu'r dull o gyflwyno adroddiadau. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid].

6. Cyflwynwyd braslun o sefyllfa Canolfan y Celfyddydau i'r Cyngor. Trafododd yr aelodau effaith chwyddiant a'r niferoedd sy'n ymweld â’r Ganolfan; nid yw nifer yr ymwelwyr wedi cyrraedd yn ôl i’r lefelau cyn y pandemig. Mae masnachu wedi cynyddu 60% o'i gymharu â'r un amser y llynedd, ond mae'r costau sylfaenol yn cynyddu.

7. Croesawyd arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru a'r grant dilynol. Mae'r Cyngor Sir wedi lleihau ei grant, sy'n ddealladwy ond yn heriol.

8. Trafododd yr aelodau y dyddiau hylifedd net a'r targed o 36-40 diwrnod. Erbyn hyn mae hynny wedi gostwng. Cynyddu incwm masnachol, ymchwil a denu myfyrwyr fydd y blaenoriaethau. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i’r newidiadau i USS a'u goblygiadau.

9. Mae sgyrsiau’n mynd rhagddynt rhwng swyddogion ac archwilwyr ynghylch busnes hyfyw. Cyflwynir diweddariad ar y sefyllfa ar ôl i’r incwm dangosol a'r camau rheoli y cytunir arnynt gael eu cyflwyno a'u hystyried. Yn y tymor byr mae heriau, ond cyfleoedd yn y tymor canolig.

**PENDERFYNWYD**

10. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. Incwm Dangosol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Linehan a Stephen Harrison, Partneriaid Busnes Cyllid (COU2324-009).

NODWYD

1. Mae corff myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn parhau i dyfu, ond mae’r niferoedd diweddaraf yn is na'r hyn y seiliwyd y gyllideb arnynt, ac ochr yn ochr â symudiadau andwyol ar Ffermydd y Brifysgol, mae'n dangos diffyg yn erbyn y gyllideb o tua £2.75m (a thybio bod nifer yr uwchraddedigion a dderbynnir yn cadw ar y trywydd iawn).

2. Mae swyddogion wedi bod yn bwyllog wrth asesu nifer y myfyrwyr. Bydd carfan mis Ionawr yn bwydo i’r sefyllfa diwedd-blwyddyn, ond does dim wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

3. Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau sylweddol mewn incwm ymchwil.

4. Mae prisiau llaeth wedi gostwng dros y chwe mis diwethaf ac, ynghyd â heriau costau chwyddiant a staffio, cafodd hyn effaith o £700,000 ar gyllideb y ffermydd.

5. Ni fyddai gwaredu dyled myfyrwyr yn effeithio ar incwm a gwariant, ond byddai'n gymorth gyda llif arian. Mae camau’n cael eu cymryd i roi sylw i'r mater, yn benodol yng nghyswllt y ffordd y mae'r brifysgol yn casglu ffioedd a chyfanswm y blaendal.

**PENDERFYNWYD**

6. Nodwyd y papur.

7. Dylid gwahodd Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau i roi cyflwyniad i'r Cyngor mewn sesiwn wybodaeth yn y dyfodol. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Diweddariad ar Ddenu a Chofrestru Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Thomas, Uwch Ddadansoddwr Data a Robin Halley, Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr (COU2324-010).

NODWYD

1. Mae nifer y myfyrwyr a dderbynnir wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf. Ni chyrhaeddwyd y targedau y flwyddyn academaidd hon, ond mae corff y myfyrwyr yn cynyddu.

2. Bu cynnydd yn y nifer sy'n cael 'Cadarnhad Derbyn i Astudio', a newidiadau bach yn nifer yr uwchraddedigion sy'n rhoi Aberystwyth yn ddewis cadarn a myfyrwyr sy'n cofrestru ar y cynlluniau TAR a Nyrsio.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 11. REFIT CYFNOD 3

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dewi Day, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd ac Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety (COU2324-011).

NODWYD

1. Cyfanswm cost y prosiect a gynigiwyd yw £3,360,948 (yn cynnwys TAW) ac mae cwmpas y gwaith yn cynnwys uwchraddio goleuadau LED mewn 18 adeilad, system PV solar ar do adeilad William Davies, trin ffenestri i atal drafftiau yn Hugh Owen, inswleiddio pibellau ac uwchraddio goleuadau argyfwng mewn 16 adeilad. Disgwylir y bydd allyriadau CO2 yn lleihau 213 tCO2e bob blwyddyn yn sgil y prosiect.

2. Gellir cyllido'r rhan fwyaf o'r gwaith trwy fenthyciad Salix di-log o £2,985,303. Bydd y £375,000 ychwanegol yn dod o gyllideb gyfalaf gymeradwy'r Brifysgol. Disgwylir i'r prosiect dalu amdano ei hun ymhen 11 mlynedd. Mae'r arbedion blynyddol cyfartalog i gostau ynni, o £336,436, yn uwch nag ad-daliadau blynyddol y benthyciad, sef £298,530 - a fyddai'n cael ei ad-dalu'n llawn dros 10 mlynedd. Byddai buddion cronnus y prosiect dros gyfnod o 20 mlynedd oddeutu £9.3M.

3. Mae angen cael cymeradwyaeth allanol gan y Cyngor Cyllido a'r banc.

4. Mae'r cynnig o fewn i'r hyn a gymeradwywyd yn y Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 i brosiectau cynaliadwyedd. Ni fydd y dyraniad llawn yn cael ei wario yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fenthyg £2,985,303 gan gyllid Salix i ariannu rhan fwyaf y prosiect arbed ynni a charbon gwerth £3,360,948.

## 12. MATERION LLYWODRAETHU

1. <u>Adroddiad Blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-012).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau anghenion hyfforddi; meysydd cyfrifoldeb a chylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau; ac a oes gan y Cyngor y cyfuniad priodol o sgiliau i ymgymryd â'i gyfrifoldebau. Byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar y materion hyn yn rhan o'r arolwg a drefnwyd ar y llywodraethu. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

**13. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2324-013).

NODWYD

1. Mae cwmni Andrew Scott Ltd yn gweithio y tu hwnt i'r amserlen y cytunwyd arni i symud y gwaith yn ei flaen. Mae yna hyder rhesymol y bydd cyllid WEFO yn cael ei wario'n llwyr.

2. Newidiwyd aelodaeth y Grŵp Goruchwylio i gynnwys cynrychiolydd o'r Cyngor Sir.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r heriau a amlinellwyd ynglŷn â llif arian yn cael effaith ar brosiect yr Hen Goleg. Nodwyd bod cyllid WEFO yn cael ei ddefnyddio'n llwyr, gan ganiatáu i'r brifysgol wario'r grant erbyn Nadolig 2023.

4. Mae cynnydd da yn cael ei wneud, ond mae Andrew Scott yn amcanu bod 8 wythnos o oedi.

5. Nodwyd yr amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau / trafod â'r Ymddiriedolwyr a'r Sefydliadau.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad.

**14. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2324-014); roedd yr aelodau'n fodlon ar y pellter teithio.

2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2324-015); a

3. USS – Ffurflen Ymateb – Ymgynghoriad ar ragdybiaethau arfaethedig Ymddiriedolwr USS ar ddarpariaethau technegol y cynllun yng nghyswllt gwerthusiad 2023. (COU2324-016)

**NODWYD**

4. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

**15. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Daeth y cyfarfod i ben am 14:52.